Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant a chyflwyno'r brechlyn rhag y frech goch, clwy'r pennau, rwbela a farisela (brech yr ieir) (MMRV) yn 2026

## Pecyn Cymorth i Ymarferwyr Gofal Iechyd

**Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu gwybodaeth ac adnoddau allweddol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r brechlyn MMRV a newidiadau eraill i'r amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant yng Nghymru o 2026.**

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg. This information is available in English.

**Mae'r amserlen imiwneiddio i blant wedi newid yng Nghymru yn 2026.**

**Mae'r newidiadau hyn yn dilyn argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), sef pwyllgor cynghori gwyddonol arbenigol llywodraeth y DU ar frechu ac imiwneiddio. Mae amserlen frechu'r DU yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd i gadw pobl a chymunedau wedi'u diogelu. Efallai y bydd angen newidiadau wrth i batrymau clefydau newid neu wrth i frechlynnau newydd ddod ar gael.**

### Beth sydd angen i mi ei wybod?

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd amser i ddeall y newidiadau, i rannu gwybodaeth gyda chydweithwyr, ac i wybod ble i ddod o hyd i adnoddau pellach. Mae hyn er eich gwybodaeth eich hun ac i gefnogi eich cleifion. Bydd hyn yn eich helpu i roi brechiadau'n hyderus ac ymateb i gwestiynau.

### Beth yw'r newidiadau?

**O 1 Ionawr 2026:**

- Mae **apwyntiad brechu 18 mis newydd** wedi'i gynnwys yn yr amserlen imiwneiddio i blant.
  - Mae'r apwyntiad hwn yn cynnwys **4ydd dos ychwanegol o'r brechlyn 6-mewn-1 i ddiogelu rhag difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio, Haemophilus influenzae math b (Hib) a hepatitis B (DTaP/IPV/Hib/HepB).**

- **Cyflwyno'r brechlyn rhag y frech goch, clwy'r pennau, rwbela a farisela (brech yr ieir) - MMRV**
  - Mae'r brechlyn MMRV yn cael ei gyflwyno i'r amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant ac mae'n disodli'r
  - brechlyn rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (MMR).
  - Cynigir y brechlyn MMRV pan fydd plentyn yn 12 mis a 18 mis oed.

**Nid oes brechlyn 'farisela yn unig'** yn yr amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant. Mae'r brechlyn MMR yn dal i fod ar gael i blant 6 oed a hŷn ac oedolion sydd wedi methu un dos o'r brechlyn MMR neu'r ddau ddos ohono, ac nad ydynt yn gymwys i gael y brechlyn MMRV.

**Rhaglen dal i fyny ddewisol farisela i'r rhai a gafodd eu geni ar neu ar ôl 01/01/2020 hyd at 31/08/22**

- Un dos o'r brechlyn MMRV i blant 3 blwydd a 4 mis oed a than 6 oed **nad ydynt wedi dal brech yr ieir** neu gael **2 ddos o'r brechiad farisela.**
- Bydd y rhaglen yn cael ei chyflenwi rhwng 1 Tachwedd 2026 a 31 Mawrth 2028 i helpu i sbarduno rheolaeth a lleihau trosglwyddo'r haint ymhellach yn y boblogaeth.
- Nid oes gofyniad i bractisiau wirio hanes haint brech yr ieir drwy gynnal profion seroleg ar gyfer y rhai sy'n ymateb i'r cynnig.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo i'r amserlen newydd, noder y bydd plant yn derbyn brechiadau gwahanol ar oedrannau gwahanol, yn dibynnu ar eu dyddiad geni. **I gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd i gael y brechlyn, gweler 'Dogfen ac offer' isod.**

Am ragor o wybodaeth am y newidiadau gweler Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant - Gwybodaeth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

## Ble alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Ewch i'r gwefannau defnyddiol canlynol.
Ychwanegwch y gwefannau at eich nodau tudalen er mwyn cyfeirio atynt yn gyflym os oes angen:



### Polisi Llywodraeth Cymru:

- Brechiad farisela (brech yr ieir) arferol i blant ifanc o 1 Ionawr 2026 (WHC/2025/046) | LLYW.CYMRU (gwefan allanol)
- Newidiadau i'r rhaglen imiwneiddio rheolaidd i blant ac i'r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B (WHC/2025/19) [HTML} | LLWY.CYMRU (gwefan allanol)

### Datganiadau a chofnodion cyfarfodydd JCVI:

- Datganiad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ar raglen frechu farisela (brech yr ieir) i blant - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)
- Datganiad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ar newidiadau i'r amserlen imiwneiddio i blant - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)
- Cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JVCI) Hydref 2023 (gwefan allanol - Saesneg yn unig)

## Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Cymru:

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu tudalennau gwe ac offer i gefnogi ymarferwyr gofal iechyd wrth gyflwyno'r brechlyn MMRV a newidiadau i'r amserlen.

### Tudalennau gwe:

### Ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd:

Ewch i'r dudalen we bwrpasol ar gyfer gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i ddarllen rhagor am y newidiadau, yn cynnwys cwestiynau cyffredin:

- Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol

Mae gwybodaeth am y brechlynnau MMRV ac MMR, yn cynnwys adnoddau cysylltiedig fel taflenni, posteri ac adnoddau wrth ymateb i frigiadau o achosion o'r frech goch, ar gael yn:

- Brechlynnau MMRV ac MMR - Gwybodaeth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gwybodaeth am y brechlyn 6-mewn-1 ychwanegol a'r goblygiadau ar gyfer y rhaglen hepatitis B ddewisol ar gael yn:


- Difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio, Haemophilus influenzae math b (Hib) a hepatitis B (DTaP/IPV/Hib/HepB neu'r brechlyn '6-mewn-1') - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Hepatitis B (HepB) - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae adnoddau i gefnogi brechiadau cyn-ysgol, yn cynnwys llythyrau pwrpasol ar gyfer rheolwyr a staff lleoliadau cyn-ysgol, ac ar gyfer rhieni plant cyn-ysgol, ar gael yn:

- Adnoddau brechlyn ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru gweler 'Rhaglen frechu cyn-ysgol'

### Dogfennau ac offer:

- Cynigir y brechlyn MMRV yn rheolaidd ac fel rhaglen dal i fyny dos sengl ddewisol i unigolion cymwys, fel y nodir yn y 'rhaglen dal i fyny ddewisol Farisela' uchod. Mae offeryn cymhwysedd MMRV Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael i'ch arwain yn ystod y cyfnod trosglwyddo i'r amserlen newydd. **Gallwch gadw hwn ar eich bwrdd gwaith a'i argraffu.**
- Edrychwch ar yr amserlen imiwneiddio rheolaidd gyflawn wedi'i diweddaru ar gyfer Cymru i weld pa frechiadau y mae plant i fod eu cael, a phryd.




Gweld a lawrlwytho'r ffurflen Cofnodi Imiwneiddio Heb ei Drefnu wedi'i diweddaru yn Adnoddau brechlyn ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol (gweler 'System iechyd plant').

## Gwiriwch eich gwybodaeth: hyfforddiant a dysgu

### Sesiynau codi ymwybyddiaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol:


Dysgwch am gyflwyno'r brechlyn MMRV a newidiadau eraill drwy gyrchu amrywiaeth o sesiynau codi ymwybyddiaeth pwrpasol. **Mae recordiadau a sleidiau'r holl sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho yma Adnoddau a digwyddiadau hyfforddiant imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

### Gweminar Holi ac Ateb:

- Gweminar fanwl yn amlinellu'r newidiadau i'r amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant, yn cynnwys cyflwyno MMRV a newidiadau eraill yn 2026 (Saesneg yn unig).

### Setiau Sleidiau wedi'u Recordio

- Cyfres o setiau sleidiau wedi'u recordio ar farisela, y frech goch, a chyflwyno'r brechlyn MMRV (Saesneg yn unig).



**Gwybodaeth am hyfforddiant imiwneiddio ar gyfer darparwyr lleol:**

- Setiau sleidiau hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynorthwyo gyda chyflawni'r amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant a newidiadau i'r amserlen, yn cynnwys y brechlyn farisela MMRV (gweler 'Setiau sleidiau hyfforddiant penodol i frechlynnau'). Gall y rhain gefnogi dysgu unigol neu eu defnyddio gan fyrddau iechyd i roi hyfforddiant ar waith yn lleol. Ewch i Cysylltiadau brechu - Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael manylion cyswllt eich tîm lleol.

Os ydych chi newydd gofrestru i imiwneiddio, bydd angen i chi gwblhau'r rhaglen Imiwneiddio ar gyfer imiwneiddwyr newydd, sydd ar gael yma E-ddysgu Imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r offeryn asesu cymhwysedd (gwefan allanol - Saesneg yn unig)

## Adnoddau gan asiantaethau allanol:

**Adnoddau Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA):**

• Darllenwch y penodau perthnasol yn y Llyfr Gwyrdd Immunisation against infectious diseases (gwefan allanol - Saesneg yn unig).

**Ystyriwch Bolisi Cymru wrth gyfeirio at yr adnoddau isod.**

- MMRV vaccination: information for healthcare professionals (gwefan allanol - Saesneg yn unig) Mae'r UKHSA yn darparu gwybodaeth fanwl am raglen frechu MMRV ac mae'n mynd i'r afael â materion a chwestiynau cyffredin, yn cynnwys canllawiau ar blant sydd ar ei hôl hi o ran eu hamserlen ac ar ymateb i frigiadau o achosion.
- Dylid rheoli plant sydd â statws imiwneiddio ansicr neu anghyflawn yn unol â'r hyn a nodir yn Vaccination of individuals with uncertain or incomplete immunisation - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)
- Mae'r adnodd The childhood immunisation eligibility calculator - Health Publications (gwefan allanol - Saesneg yn unig) ar gael i'ch helpu i ddeall a chynllunio pa frechlynnau sydd angen eu rhoi a phryd.
- Canllawiau ychwanegol:
  - Hexavalent combination vaccine: programme guidance - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)
  - Childhood immunisation: quick guide for parents of premature babies - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)
  - A visual guide to vaccines - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)

## Y Fframwaith Cyfreithiol:

- Templedi Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion (PGD): Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion (PGD) - Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru. Sylwch nad yw'r templedi PGD cenedlaethol hyn yn gyfreithlon i'w defnyddio nes iddynt gael eu haddasu a'u hawdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol.

## Adnoddau ar gyfer y cyhoedd:

Cyfeiriwch rieni a gwarcheidwaid at y tudalennau gwe hyn:

- Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio rheolaidd i blant - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- MMRV ac MMR - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio, Haemophilus influenzae math b (Hib) a hepatitis B (brechlyn DTaP/IPV/Hib/HepB neu '6-mewn-1') - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Brechlyn Hepatitis B - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yma gallant ddarllen am y newidiadau a'r gwahanol frechlynnau. Gallant hefyd ddysgu am gymhwysedd a gweld detholiad o gwestiynau cyffredin.

**Archebu neu lawrlwytho adnoddau *am ddim:***

Archebwch adnoddau ***am ddim*** fel posteri a thaflenni gwybodaeth i gleifion i gefnogi clinigau brechu a rhieni a gwarcheidwaid yn: Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru










## Ffynonellau gwybodaeth am oruchwylio brechlynnau a chlefydau:

- **Gwyliadwriaeth ar ddata o'r nifer o blant sy'n cael eu himiwneiddio:** COVER - Data cenedlaethol ar imiwneiddio i blant - Iechyd Cyhoeddus Cymru (Cyhoeddir adroddiadau bob chwarter ac yn flynyddol).
- **Dangosfyrddau o'r Nifer sy'n Cael eu Brechu ar Lefel Awdurdodau Lleol, Meddygon Teulu ac Ysgolion (staff mewnol y GIG yn unig):** Imiwneiddio i Blant (COVER)
- **Gwyliadwriaeth o Frechlynnau, Clefydau y gellir eu Hatal drwy Frechu a Heintiau Anadlol** Gwyliadwriaeth o Frechlynnau, Clefydau y gellir eu Hatal drwy Frechu a Heintiau Anadlol

## Beth arall sydd angen i mi ei wneud?



**Rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda phawb sy'n ymwneud â'r rhaglen**, yn cynnwys staff derbynfa sy'n trefnu apwyntiadau. Ystyried defnyddio'r set sleidiau 'gwybodaeth hyfforddiant imiwneiddio ar gyfer darparwyr lleol' i gynnal sesiwn hyfforddi a gwybodaeth i gydweithwyr.

## Ble arall alla i ddod o hyd i gefnogaeth?

Cysylltwch â'ch tîm imiwneiddio lleol yn y lle cyntaf gydag ymholiadau ynghylch brechlynnau. Gallwch ddod o hyd i fanylion cysylltiadau yn eich bwrdd iechyd yn yr adran: **Cysylltiadau Brechu**.

I gysylltu â thîm y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, e-bostiwch: **phw.vaccines@wales.nhs.uk**

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Fersiwn 1 | Ionawr 2026

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales